# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cefn Manor**

**Cefn Manor**
**Llanelli**
**SA15 4RT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cefn Manor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Era Living Solutions Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mehefin 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn dweud eu bod yn hapus yng nghartref Cefn Manor. Caiff pob person ei annog i wneud dewisiadau bob dydd ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddo. Mae'r tîm o staff am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwr, ac maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau.

Mae'r rheolwr yn bwrw ati'n barhaus i ddatblygu gofal a chymorth y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae pob gweithiwr yn dangos gwybodaeth dda am y bobl sy'n cael cymorth. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff y cymorth a roddir i'r bobl ei fonitro'n rheolaidd. Caiff yr amgylchedd, gan gynnwys y tir a'r gerddi helaeth, ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae awyrgylch cadarnhaol yn y cartref sy'n helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus.

## Llesiant

Yn gyffredinol, caiff y bobl yn nghartref Cefn Manor gymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r tîm o staff yn anelu at sicrhau bod pob person yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddo. Er enghraifft, gofynnir i'r bobl gymryd rhan mewn trafodaethau am eu cymorth ac mae'r gweithwyr allweddol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r bobl er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddiweddaru eu cofnodion gofal lle bo angen. Mae canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth y cartref ar gael yn hawdd i'r bobl a'u perthnasau gyfeirio ato ac mae'n cynnwys manylion am yr hyn y gellir ei ddisgwyl gan y cartref. Mae'r bobl hefyd yn ymwybodol o'r broses gwyno os bydd angen iddynt ei defnyddio ac mae gwybodaeth ar gael iddynt am wasanaethau eiriolaeth os byddant am gael cymorth annibynnol mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r cofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor iach, diogel ac annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban a byddent yn barod i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny.

Mae'r bobl yn gartrefol ac yn gyfforddus, ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt: maent yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae pob person mor egnïol ag y dymuna fod. Mae gan y gweithwyr gofal gysylltiad a chydberthnasau da â'r bobl ac maent yn rhyngweithio mewn ffyrdd cadarnhaol, gan gynnal sgyrsiau hwyliog. Mae'r bobl yn personoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau a'u hobïau.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau cyfredol sy'n disgrifio sut mae'r tîm o staff yn galluogi'r bobl i fyw eu bywydau fel y dymunant. Mae'r uwch-aelodau o staff yn cynnal asesiadau cychwynnol cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref ac maent yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn mynd ati'n rheolaidd i roi digon o amser i'r bobl drafod unrhyw bryderon. Mae proffiliau unigol yn dangos beth sy'n bwysig i'r bobl, ac mae'r cynlluniau personol yn disgrifio'n glir y cymorth ar gyfer pob unigolyn: mae hyn yn cynnwys ei drefn o ddydd i ddydd a'i ddewisiadau o ran ffordd o fyw. Mae'r gweithwyr allweddol ac uwch-aelodau o'r staff yn adolygu'r cofnodion gofal yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd â'u gweithiwr allweddol i wneud cynlluniau. Dywedodd perthynas wrthym, *“Rydym wir yn teimlo ein bod yn rhan o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd. Maent bob amser yn rhoi gwybod beth sy'n digwydd gydag X.”* Mae'r bobl yn mynd i gaffis a thafarndai, yn mynd i siopa ac yn ymweld â mannau lleol o ddiddordeb. Mae'r gweithwyr gofal yn llawn cymhelliant ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn. Mae'r rheolwr yn trefnu prydau bwyd cymunedol ddwywaith yr wythnos fel digwyddiadau cymdeithasol i'r bobl yn y cartref. Fel arall, bydd pob person yn coginio ei fwyd ei hun gyda chymorth priodol gan y staff.

Mae'r darparwr yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu bwrw ati i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i bobl heb fod angen iddynt ofyn am hynny – mae rhai o'r bobl yn y cartref yn siaradwyr Cymraeg ac mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'r rheolwr yn bwriadu ystyried trefniadau ar gyfer cynhyrchu datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth y cartref yn ddwyieithog.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref ac mae'r gweithwyr gofal yn cyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd addas. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae ystafelloedd y bobl yn fawr ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a darnau o gelfi. Gwenodd un person a dywedodd, *"Dewch i weld fy ystafell. Mae'n neis iawn."* Mae cegin ac ardal fwyta fawr, yn ogystal ag ardal yn yr awyr agored lle y gall y bobl dreulio amser.

Mae allanfeydd tân yn glir o rwystrau ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff profion larwm tân eu cynnal bob wythnos. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae cyfarwyddiadau clir wedi'u harddangos yn y cartref sy'n nodi beth y dylid ei wneud os bydd tân.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r cartref, gan fod pob ymwelydd yn mynd drwy giât sydd wedi'i chloi er mwyn cyrraedd y dramwyfa a thir y cartref. Ond ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd o hysbysu'r bobl yn y tŷ fod ymwelwyr yn aros i ddod i mewn. Mae'r rheolwr yn trefnu i osod cloch.

Dim ond y gweithwyr gofal a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ag awdurdod i'w gweld a gaiff weld cofnodion gofal personol y bobl. Caiff gwybodaeth bersonol a chyfrinachol arall ei storio'n ddiogel yn swyddfa'r rheolwr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bawb sy'n cael cymorth. Mae'r rheolwr ar gael i unrhyw un ac mae'r bobl a'r holl staff yn dweud ei bod yn rhoi cefnogaeth dda iddynt a'i bod yn barod i wrando ar syniadau newydd. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r cartref ac yn darparu cefnogaeth dda i'r rheolwr. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud cwyn.

Ar y cyfan, mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r rhaglen sefydlu staff yn cysylltu â 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae pob un o'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hanfodol cyfredol ac wedi cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi, gan gynnwys cymorth ymddygiad cadarnhaol.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn ddiogel a chânt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae polisi a gweithdrefn diogelu'r cartref yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae'r uwch-aelodau o staff yn diogelu preifatrwydd a gwybodaeth bersonol pob unigolyn bob amser. Mae'r gweithwyr gofal wedi bodloni proses recriwtio drylwyr y darparwr. Mae'r uwch-aelodau o staff yn monitro'r gweithwyr gofal er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl. Gall pob gweithiwr gofal gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae'r gweithwyr gofal yn mynychu hyfforddiant sy'n benodol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, fel hyfforddiant ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ac Anhwylder Deubegynol a hyfforddiant rheoli gwrthdaro. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal, *"Ydyn, rydyn ni'n cael llawer o hyfforddiant ac mae'r holl hyfforddiant yn ddefnyddiol."*

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf. Gall pob cyflogai drafod unrhyw faterion y mae am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Mae sesiynau goruchwylio ar gyfer rhai o'r gweithwyr gofal yn hwyr, ond gallem weld fod y rheolwr yn bwriadu gweithredu yn hyn o beth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Ymdrin â phob pryder amgylcheddol | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw hyfforddiant y staff yn gyfredol. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw sesiynau goruchwylio'r staff yn gyfredol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/11/2022